Ann Griffiths: 1776–1805

Newid byd

Ffyddlondeb / ymddiriedaeth

Annwyl Lisa,

Mae'n rhaid i mi ysgrifennu atoch i ddweud beth sydd wedi digwydd. Fel y gwyddoch, roedd hi'n ŵyl Mabsant yn nhref Llanfyllin wythnos diwethaf. Roedd yn rhaid i mi gael mynd yno i fwynhau fy hun. Ond roedd hi'n wahanol rywsut y tro hwn. Fel y gwyddoch, rwyf wedi dechrau darllen y Beibl. Mae'r darlleniadau o'r Beibl a'r gweddïau wedi aros efo mi. Mi fydda i yn ailadrodd rhai o adnodau'r Beibl. Dyma i chi un ohonyn nhw. Adnod fer iawn ydi hi ond mae hi'n adnod bwysig iawn, "Duw cariad yw."

Beth bynnag, mynd wnes i'r ŵyl i Lanfyllin. Fe ddaeth ffrind i mi efo mi. Cawsom amser da yn yr ŵyl. Buom yn dawnsio ... ond roedd hi'n anodd iawn dawnsio gan fod yr hyn roeddwn i wedi'i ddysgu yn y Beibl yn pwyso'n drwm ar fy meddwl. Ar ôl i mi dreulio cryn awr yno gwelais fod yna griw o bobl yn sefyll tu allan i'r capel. Dyma'r ddwy ohonom ni yn mynd yno. Ar ochr y stryd roedd pregethwr yn pregethu o'i hochr hi.

"Dewch, enethod, dewch i wrando ar y pregethwr."

"O ble mae o'n dod?" gofynnais innau. "Y Parchedig Benjamin Jones o Bwllheli ydi o," oedd yr ateb.

Dyma ni'n closio yn nes ato. Yn sydyn, gwelais fod y pregethwr yn edrych i fyw fy llygaid i. Roedd o'n siarad efo fi. Roeddwn i yn deall y pregethwr yma. Fel y gwyddoch chi mae'r pregethwyr yn anodd iawn i'w deall. Maen nhw'n defnyddio geiriau mawr ac yn sôn am syniadau tu hwnt i mi. Ond roeddwn i yn deall y pregethwr yma. O'r Hen Destament roedd o'n pregethu os ydw i'n iawn. Soniodd am y gwas oedd yn mynd i gael ei ladd. Yna, yn sydyn, cofiais am Iesu Grist. Fel y cafodd ef ei groeshoelio ar y Groes. Yna'n sydyn dyma fo'n dechrau sôn am Iesu Grist. Dyma fo'n edrych unwaith eto arna i. A dyma fo'n dweud yn uchel, "Mae Iesu Grist wedi marw drosoch chi... chi... chi... chi." A dyna lle'r oedd o yn edrych arnom ni fesul un.

Fe ddaethon ni oddi yno cyn iddo fo orffen pregethu. Fedrwn i ddim aros yno ddim mymryn mwy. Y fath bregeth. Fe ddaethon ni adref i Ddolwar Fach yn hapus iawn. Ar brydiau mi roedden ni yn

rhedeg. Dro arall yn dawnsio wrth feddwl am yr hyn glywson ni gan y Parchedig Benjamin Jones.

Ydych chi yn adnabod y pregethwr? Glywsoch chi Mr Jones yn pregethu? Y peth pwysig amdano oedd ein bod yn ei ddeall. Ond yn fwy na hynny, roedd o fel petai o'n siarad efo fi. Nid siarad efo'r waliau fel roedd y ffeirad yn yr eglwys erstalwm. Ond roedd y pregethwr hwn yn siarad efo fi am Iesu Grist.

Mae'n siŵr y byddwch chi'n falch o glywed fy mod am roi fy mywyd i gyd i Iesu Grist. Mi rydw i wedi penderfynu darllen y Beibl a gweddïo bob dydd. Os bydd arna i angen help wnewch chi fy helpu? Rwy'n gwybod eich bod chithau hefyd yn ffrind da i Iesu Grist. Rwy'n siŵr y bydda i angen help i ddarllen a deall y Beibl. Mae yna rai pethau nad ydw i yn eu deall yn iawn.

Efallai y byddwch yn ddigon caredig i dderbyn fy llythyrau ac os cewch amser ac iechyd y byddwch mor garedig â'u hateb.

Yn gywir iawn,

Ann.

O.N – Mae'r adnod hon wedi bod ar fy meddwl drwy'r dydd, "O Dad, maddau iddynt canys ni wyddant beth maent yn ei wneuthur."

"Iesu Grist, yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth."
Hebreaid 13:8

Diolch i Ti, O Dduw
am bobl yn ein hanes
sydd wedi rhoi i ni
emynau yn ein hiaith,
emynau oedd yn brofiadau
i'r emynwyr.
Amen.

Chwiliwch am rai o emynau Ann Griffiths yn *Caneuon Ffydd.*
O edrych ar yr emynau, oedd Iesu Grist yn bwysig iddi?